ADRODDIAD A MYFYRDODAU AR Y PROSIECT CREADIGOL

‘Dad-fapio’r orchest’

Datblygu’r gwaith creadigol

(ymchwil, troedio a gwrthdroedio)

Gan Andrea Despó

Beth hoffem ei ddangos? Ochr arall yr ymsefydlu Cymreig a’r berthynas wedi ei rhamanteiddio â’r brodorion (1865). Presenoldeb pobloedd wreiddiol y tiroedd hyn, y ffaith ein bod ni yma ers cyn i gwladwriaethau’r Ariannin a Chile gael eu creu ein hanfod cynhenid, a chynllun Llywodraeth yr Ariannin i feddiannu tiroedd y de: ‘Concwest yr Anialwch’ a’i heffeithiau.

Dymunwn adrodd y stori nas adroddir a datgymalu trafodaeth ar HUNANIAETH CHUBUT a’r naratif twristaidd sydd wedi ffurfio delwedd ddychmygol o ddyfodiad y gwladfawyr, gan roi gweddnewidiad i olygfeydd symbolaidd gan gynnwys ‘naid Malacara’ a ‘Llwybr y Rifleros’, ymhlith pethau eraill. Fel mae’r ymchwilydd Pilar Pérez (2022, t. 116) yn esbonio, mae’r naratifau hyn wedi bod yn hanfodol am ddau reswm. Yn gyntaf, maent yn gwadu hyd yn oed presenoldeb y bobl frodorol wedi Concwest yr anialwch. Yn ail, maent yn adeiladu’r syniad o’r anialwch cwsg; pe bai’n cael ei adael i fod, yr anialwch fyddai’n ymledu dros lwyddiannau’r fyddin. Yn union fel nad oedd un polisi yn unig yn bodoli i ymdrin â’r rhai oedd wedi goroesi (Delrio et al, 2018), roedd dileu eu bodolaeth yn y naratif hegemonaidd yn cryfhau’r weithred o rewi a ffosileiddio hunaniaeth frodorol. Yn ogystal â’u pŵer creadigol ar lefel

genedlaethol, treiddiodd y naratifau hyn drwy hanesion sefydlu'r trefi a oedd yn rhan o'r ffin olaf (Nagy, 2011) yn ogystal â'r trefi a sefydlwyd yng nghanol Patagonia.

Cyflawnom y Mapio Cymdeithasol hwn drwy chwilio am straeon gan haneswyr, gan bobl yr ardal, gan leisiau sy'n rhoi gwirionedd mewn geiriau. Gwyddom fod y lleisiau a'r safbwyntiau hyn am stori wneuthuredig hanes Chubut a'i hunaniaeth yn gwneud pobl yn anghyfforddus...

Mae'r celfyddydau yn fodd i gyfathrebu, herio ac ysgogi trwy'r synhwyrau, i agor ein llygaid a dangos persbectifau newydd, a dyma y gobeithiwn ei gyflawni gyda'r gwaith hwn.

Rydym yn cynnal y prosiect fesul cam:

1) Ymchwil lyfryddol ac ymchwil faes. Cysylltu â haneswyr a deunyddiau llyfryddol, newyddion o'r amser a ffotograffau. Teithio o gwmpas lleoliadau gwahanol o fewn y Dalaith.

2) Derbyn cynigion artistiaid. Brasluniau. Syniadau collage. Perfformiadau. Celf fideo. Pennu themâu cyffredin a dewis delweddau.

3) Paratoi darn o gelf fideo.

Er mwyn cyflawni cynhyrchiad creadigol – darn o gelf fideo – rydym yn cynnal cam ymchwil a dewis beth i'w ddweud, sut a ble. Yn hyn o beth, mae'n bwysig tynnu sylw at wrthwynebiad rhai mannau hanesyddol i ganiatáu defnyddio'u cyfleusterau i ffilmio'r gwaith.

Yn ystod y gwaith ymchwil, cododd nifer o gwestiynau:

Ai teithwyr yn unig oedd y 'Rifleros'? Beth oedd eu perthynas â Llywodraeth yr Ariannin, coron Lloegr a llywodraeth Chubut, yn ystod ac ar ôl Concwest yr 'Anialwch'? Pam nad oes unrhyw un yn siarad am gorlan 'Charmata' neu FORTÍN VILLEGAS?

Beth oedd gwir gymhellion *longko* Foyel a'i bobl (Juan Salvo) i erlid Evans a'i gymdeithion yn y digwyddiad hwnnw a roddodd ei enw i 'Ddyffryn y Merthyron'? Heblaw am eu drysu â milwyr cadlywydd Lino Roa neu yn sgil torri cytundebau gyda Llywodraeth yr Ariannin a'r cymunedau brodorol, tybed a oedd rheswm arall dros yr ymosodiad?

Daw syniadaeth sylfaenol cymdeithas yr Ariannin o Genhedlaeth 1880au, sef syniadaeth y Sociedad Rural [cymdeithas y tirfeddianwyr], a oedd, oherwydd eu diddordebau yn y tir, yn adrodd disgwrs am indiaid barbaraidd a milain yr oedd rhaid eu difodi'n gorfforol ac yn ddiwylliannol, gan efengylu a dofi'r rhai a oroesodd yr hil-laddiad creulon. Yn ôl Pilar Pérez: 'Bu'r hanes a ysgrifennwyd am y Goncwest yn llwyddiant o ran llunio stori effeithiol ac anochel am ddyfodol Patagonia. A dyna sut y parhaodd pethau am fwy na chanrif bron heb unrhyw newidiadau, a chaniataodd

hynny i ddatganiadau, rhagfarnau, a bylchau stori'r Goncwest fwrw ei gwreiddiau. Bwlch amlycaf y stori honno yw absenoldeb y bobloedd frodorol. Er y byddai synnwyr cyffredin – yn enwedig yn y dinasoedd mawr – yn dweud mai eu ffawd oedd cael eu difodi'n llwyr, mae cyfrifiadau'r ugain mlynedd diwethaf, yn ogystal â gweithgarwch y mudiadau a'r cymunedau, yn dynodi poblogaeth frodorol fawr ledled yr Ariannin. Mae'r goroesi mawr hwnnw yn amlygu'r bwlch yn y stori a grëwyd am y rhyfel.' (Pérez, 2022, t. 113)

Datblygodd prosiect Gwladwriaeth newydd sbon yr Ariannin gyda chynllun gwareiddio a'r syniad o Gynnydd, heb boeni am y gost. Y canlyniad oedd gorfodi ein cyndeidiau i gerdded i wersylloedd crynhoi Fortín Villegas a Valcheta ('ysgol diwygio Indiaid' meddai Evans). Aethpwyd â nhw wedyn i Ynys Martín García, ac unwaith yno cafodd y teuluoedd eu caethiwo, eu gwahanu a'u cam-drin. Ar yr un pryd yr oedd y gweithredoedd annynol hynny yn bwrw rhagddi, daeth y gwladfawyr â'r trenau a'r dechnoleg a oedd angen arnynt i ailsefydlu'r Gymru newydd yn Chubut, gan orfod wynebu'r holl amgylchiadau oedd yn disgwyl amdanynt wrth reswm.

Hyd yn oed heddiw, adroddir y disgwrs trefedigaethol a gwareiddiadol hwn, un sydd â golwg hiliol-bositifydd sy'n portreadu'r bobloedd frodorol fel rhai israddol, milain, hyll, brwnt a meddw. Dyma ddelweddau sy'n dal i gael eu hatgyfnerthu heddiw mewn ysgolion, yn y cyfryngau hegemonaidd ac ymysg haneswyr a wreiddiodd yr olwg honno o fewn yr academi.

Mae'r cysyniad o GYDFODOLAETH HEDDYCHLON yn gadael buddiannau pob grŵp allan: y gwladfawyr Cymreig, y grwpiau Tehuelche a Mapuche. Wrth i'r ddelweddaeth hon atgyfnerthu'r syniad o'r Tehuelche addfwyn a'r Mapuche-Araucano treisgar a goresgynnol, sydd HYD YN OED HEDDIW yn CYFIAWNHAU'R DIFEDDIANNU, mae hefyd yn tanseilio hawliau cynhenid y Mapuche fel rhai sydd â'u hanfod yn y tiroedd hyn ym Mhatagonia cyn ffurfio'r Gwladwriaethau. Mae'r chwedl wedi ei rhamanteiddio am y cyfarfod a'r berthynas heddychlon a chytûn yn cuddio buddiannau, cynlluniau gwleidyddol, a pherthynas anghyfartal.

MAE'R CELFYDDYDAU YN AMAU, YN PROBLEMATEIDDIO, YN CWESTIYNU. Mewn gweithred o gyfiawnder barddonol byddwn yn amlygu presenoldeb ein pobl er gwaethaf gweithredoedd Concwest yr Anialwch.

Roedd ein presenoldeb yn niwsans i brosiect 'gwaraidd' ac Ewropeaidd yr Ariannin, mae ein presenoldeb a'n gallu i adrodd y gwirionedd cudd a wadwyd yn gwneud nifer yn anghyfforddus hyd yn oed HEDDIW. Bydd ein presenoldeb gwrthryfelgar, indiaidd ac artistig yn talu teyrnged i'r *kuifikecheyem*, i'n cyndeidiau. Dyma bresenoldeb sydd, o ymylon hanes, yn ceisio troi'r ffocws arnom ni.

<u>Ffynonellau</u>

Delrio, W., Escolar, D., Lenton, D. y Malvestitti, M. (2018). *En el país de Nomeacuerdo. Archivos y memorias del genocidio del estado argentino sobre los pueblos originarios 1870- 1950*. Viedma: Universidad Nacional de Río Negro.

Nagy, M. (2011). ¿Otros relatos? A propósito de la evocación de la XXV Marcha por los fortines del desierto. *XIII Jornadas Interescuelas Departamentos de Historia*, San Fernando del Valle de Catamarca.

Pérez, Pilar (2022). Malón de ausencia: historia hegemónica y relatos en disputa en torno a la “Conquista del Desierto”, *Coordenada. Revista de Historia Local y Regional*, Año IX. Número 1: enero-junio. Editorial UNR.